Cyngor Abertawe
Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Y Cabinet

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018 am 3.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R C Stewart (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| W Evans | R Francis-Davies | D H Hopkins |
| A S Lewis | C E Lloyd | J A Raynor |
| M Sherwood | | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child a/ac M Thomas

---

**94. Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**95. Adroddiad(au) Arweinydd y Cyngor.**

Ni wnaed unrhyw gyhoeddiadau gan Arweinydd y Cyngor.

**96. Cwestiynau gan y cyhoedd.**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

**97. Hawl i holi cynghorwyr.**

Gofynnodd y Cynghorydd M B Lewis gwestiwn ynglŷn â Chofnod 99 "Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7".

Ymatebodd yr Arweinydd yn briodol.

**98. Craffu Cyn Penderfyniad - Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7.**

Cyflwynodd y Cyng. J W Jones yr adborth craffu cyn penderfynu.

Diolchodd yr Arweinydd i'r swyddogion craffu am y llythyr a'u mewnbwn.

## 99. Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn darparu diweddariad am Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog ac yn gofyn am awdurdodiad cyllideb er mwyn mynd ati i gyflwyno'r cynllun yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

**Penderfynwyd:**

1) Awdurdodi cyllideb ychwanegol gwerth £3m er mwyn caniatáu i'r dyluniadau manwl symud ymlaen er mwyn i'r prosiect allu cyflawni sicrwydd cost;

2) Nodi ffigur cyffredinol presennol y gyllideb, sef £130m;

3) Rhoi pwerau dirprwyedig i Arweinydd y Cyngor, Dirprwy Arweinydd y Cyngor a Swyddog Adran 151 ar gyfer £6.9m pellach i barhau gyda'r gwaith galluogi cyn cychwyn y prif gontract, unwaith bydd sicrwydd pellach o ran cyllid a fforddadwyedd.

4) Cymeradwyo a chadarnhau'r adnoddau cyllid ychwanegol y mae eu hangen i ddatblygu'r cynllun a chadarnhau cyfalafu swyddogion priodol sy'n gweithio ar y cynllun lle bo'n bosib er mwyn ariannu cyflwyniad.

## 100. Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Cabinet wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes y nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y Cabinet Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem(au) f/busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

## 101. Hawl i holi cynghorwyr.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

## 102. Diweddariad ar Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog a'r FPR7.

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros yr Economi a Strategaeth adroddiad a oedd yn darparu manylion ariannol am Gam 1 Cynllun Abertawe Ganolog yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Ariannol.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r argymhellion, fel y'u hamlinellir yn yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.26 pm

**Cadeirydd**

| **Gweithdrefn Galw i Mewn – Dyddiadau Perthnasol** | |
|---|---|
| Dyddiad cyhoeddi: | 29 November 2018 |
| Cyfnod Galw i Mewn yn dod i ben<br>(3 diwrnod gwaith clir ar ôl cyhoeddi): | 23.59, 4 Rhagfyr 2018 |
| Penderfyniad yn dod i rym: | 5 Rhagfyr 2018 |